**Rhif: 47380**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Cynigion i ddiwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015

Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o safbwyntiau ymatebwyr ein hymgynghoriad sy'n cynnig diwygiadau i aelodaeth Pwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

ebost: ewcconsultation.wg47380@gov.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg | LLYW.CYMRU

## Cyflwyniad

1. Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, y cymhwysedd a'r cymeriad i ymarfer mewn proffesiwn penodol.

2. Mae addasrwydd i ymarfer hefyd yn ymwneud â'r broses a ddefnyddir gan reoleiddwyr proffesiynol statudol i ddelio ag achosion a gyfeirir atynt.[1] Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n gyfrifol am y gwaith rheoleiddiol hwn mewn perthynas â'r gweithlu addysg yng Nghymru.

## Y sefyllfa bresennol

3. Mae rheoliad 26 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn nodi gofynion y "Pwyllgor Ymchwilio" a'r "Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer" ("y Pwyllgorau") o ran aelodaeth a gweithdrefnau. Un gofyniad o'r fath yw bod yn rhaid i'r Pwyllgorau gynnwys un aelod cofrestredig ac un aelod lleyg. Mae aelod cofrestredig yn berson sydd wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn yr un categori ag y mae'r person sy'n wynebu'r achos wedi'i gofrestru ynddo, ac mae'n gyflogedig neu wedi'i gymryd ymlaen fel person cyflogedig ar ddyddiad ei benodi i'r Pwyllgor.

4. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r categorïau cofrestru, fel y maent wedi’u nodi yng Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 a ddaeth i rym ym mis Mai 2023, mae 11 categori cofrestru gwahanol erbyn hyn, ac mae'n bosibl y bydd yna fwy yn y dyfodol:

   - athro ysgol a gynhelir
   - athro addysg bellach
   - athro ysgol annibynnol
   - athro sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
   - ymarferydd dysgu seiliedig ar waith
   - gweithiwr ieuenctid
   - gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol a gynhelir
   - gweithiwr cymorth mewn addysg bellach
   - gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol
   - gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
   - gweithiwr cymorth ieuenctid

## Y mater dan sylw

5. O dan y gofynion presennol yn rheoliad 26 o Reoliadau 2015, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn aml yn wynebu heriau wrth geisio dod o hyd i aelodau ar gyfer y Pwyllgorau. Gall hyn achosi oedi ar gyfer ymchwiliadau a gwrandawiadau, ac felly greu risgiau mwy i les y rhai y mae'r broses yn ymwneud â nhw. A nifer y categorïau wedi cynyddu, os na fydd y ddeddfwriaeth yn newid, bydd angen i Gyngor y Gweithlu Addysg recriwtio ymarferwyr o gronfeydd o bobl gofrestredig a allai fod yn fach iawn er mwyn

[1] Beth yw addasrwydd i ymarfer? (ewc.cymru).

gwneud ei waith rheoleiddio yn y categorïau hynny yn unig.

**Y cynnig**

6. Gwnaethom gynnig diwygio Rheoliadau 2015 sy'n berthnasol i aelodaeth y Pwyllgorau, a fyddai'n golygu bod gan Gyngor y Gweithlu Addysg fwy o hyblygrwydd i benodi aelodau panel o gronfa ehangach o ymarferwyr cofrestredig. Byddai egwyddorion tegwch a thryloywder yn parhau, ac ni fyddai unrhyw berson sy'n wynebu achos addasrwydd i ymarfer o dan anfantais oherwydd y newid.

7. Yn hytrach na bod angen 'person cofrestredig o'r un categori cofrestru â'r person cofrestredig sy'n destun yr achos disgyblu', byddai angen person sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol:

   • rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (ond nid o reidrwydd yn yr un categori â'r person sy'n destun yr achos), a
   • rhaid iddynt fod yn gyflogedig, neu wedi'u cymryd ymlaen dan drefniant nad yw'n gontract cyflogaeth, yn un o’r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru ar ddyddiad penodi'r aelod cofrestredig hwnnw i’r Pwyllgor.

8. Ar hyn o bryd, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn penderfynu a yw profiad a dealltwriaeth person yn ei wneud yn addas i'w benodi'n aelod cofrestredig. Er nad yw'n ofyniad statudol penodol, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn ystyried hyn wrth wneud penodiadau o'r fath.

9. Bydd rhoi mwy o hyblygrwydd i Gyngor y Gweithlu Addysg wrth benodi aelodau panel Pwyllgor fel hyn yn caniatáu i achosion fynd yn eu blaen yn ddi-oed.

**Diwygiadau amrywiol**

*Newid enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn y Saesneg*

10. Mae fersiwn Saesneg Rheoliadau 2015 yn cyfeirio at y "Fitness to Practice Committee", ond dylent gyfeirio, yn hytrach, at y "Fitness to Practise Committee". Newid technegol mân yw hwn, ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar waith Cyngor y Gweithlu Addysg na'r Pwyllgorau.

*Newid i Atodlen 2 Rheoliadau 2015: Materion i'w cofnodi ar y Gofrestr*

11. Mae paragraff 21 o Atodlen 2 Rheoliadau 2015 yn nodi bod yn rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg gadw ar y Gofrestr "delerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person cofrestredig o ganlyniad i gyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 142 o Ddeddf 2002", hynny yw yr adran yn Neddf Addysg 2002 yn gwahardd rhag addysgu.

12. Er mwyn rhoi effaith lawn i'r ddarpariaeth hon a galluogi Cyngor y Gweithlu Addysg i gadw cofrestr gywir, mae angen gwneud diwygiad bach i Reoliadau 2015 i gynnwys cyfeiriad at Adran 167A ym Mharagraff 21 Atodlen 2.

**Crynodeb o’r ymatebion**

13. Cafwyd 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan drawstoriad o gymdeithas, gan gynnwys y cyhoedd, undebau llafur, cyrff rheoleiddio ac amryw gyrff cynrychioliadol, yn bennaf yn y sector addysg yng Nghymru.

14. Ni atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau, ac yn achos un, mynegodd gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, yn syml iawn, heb roi atebion penodol i unrhyw un o'r cwestiynau a ofynnwyd.

15. Cyflwynwyd 11 o ymatebion lle na nodwyd enw na sefydliad, neu lle roedd yr ymatebydd yn gofyn am i'w ymateb gael ei drin fel un dienw. Mae dymuniadau ymatebwyr i gael eu trin yn ddienw wedi cael eu parchu yn yr adroddiad cryno hwn. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

**Cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau**

16. Roedd cefnogaeth glir i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau.

17. Cafwyd 25 o ymatebion i Gwestiwn 1 - *A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau*? O'r rhain, roedd 68% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, roedd 20% yn anghytuno, ac roedd 12% yn ansicr.

18. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai gan aelodau panel nad ydynt yn yr un categori cofrestru â'r sawl sy'n wynebu'r achos y wybodaeth am y sector neu'r rôl benodol, neu'r empathi, i fod yn aelod effeithiol o'r Pwyllgor.

19. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i sicrhau bod pob aelod o banel Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu penodi drwy broses recriwtio fanwl lle asesir eu hymddygiad a'u sgiliau. Bydd y rhai a benodir yn dilyn rhaglen sefydlu a mentora strwythuredig, a bydd rhaid iddynt fynychu hyfforddiant blynyddol. Bydd gofyn i holl aelodau'r Pwyllgorau ymrwymo i weithredu'n ddiduedd a chydag uniondeb.

20. Roedd yna gytundeb y byddai'r newid yn golygu y gellir cynnull pwyllgorau addas yn gyflymach, ac felly yn sicrhau hyblygrwydd, gan leihau'r risg o weithdrefnau hirfaith a'r risg o estyn cyfnod unrhyw niwed cysylltiedig. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd y dylid ceisio dod o hyd i unigolion sydd wedi'u cofrestru yn yr un categori i ddechrau. Er eu bod yn sylweddoli y gallai fod yn anodd dod o hyd i unigolion i eistedd ar y Pwyllgorau hyn, yn enwedig wrth chwilio o fewn cronfa fach, roeddent yn teimlo'n gryf y dylai o leiaf un o'r rhai sy'n eistedd ar Bwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer gynrychioli grŵp cofrestru'r sawl sy'n wynebu'r achos.

21. Mewn llawer o achosion, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i benodi aelodau panel yn ôl grŵp cofrestru'r sawl sy'n wynebu'r achos. Dim ond lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd niferoedd bach yr aelodau panel sydd wedi'u hyfforddi yn y categori hwnnw y bydd angen penodi aelod o grŵp arall. Mewn achos felly, bydd yr hyfforddiant a ddarperir gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn

sicrhau bod pob aelod panel yn gallu bod yn effeithiol, yn ddiduedd, a gweithredu gydag empathi ac uniondeb.

**Effeithiau'r cynnig**

22. Cafwyd 26 o ymatebion i gwestiwn 2 - *A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r cynnig?* O'r rhain, roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd 23% yn anghytuno, ac roedd 12% yn ansicr.

23. Nid oedd rhai ymatebwyr yn fodlon ar yr asesiad effaith integredig, gan godi pryderon nad oedd yr asesiad yn sôn o gwbl am effeithiau negyddol. Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau yn debygol o fod yn gadarnhaol neu'n niwtral, roeddent yn teimlo y gallai rhai o'r effeithiau fod yn negyddol - er enghraifft, diffyg dealltwriaeth o rai swyddi/rolau a fydd yn arwain at ddiffyg empathi.

24. Heblaw am yr hyblygrwydd i Gyngor y Gweithlu Addysg benodi aelodau panel o gronfa ehangach o unigolion cofrestredig, nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r polisi sy'n ymwneud â Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer nac Ymchwilio. Felly, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad o'r effeithiau sy'n gymesur â'r cynnig dan sylw. Nid oes dim yn y cynnig sy'n effeithio ar y trefniadau presennol ar gyfer ystyried unrhyw ragfarn neu effaith ar nodweddion gwarchodedig. Creu mwy o hyblygrwydd yn unig yw diben y newid ym mhrosesau Cyngor y Gweithlu Addysg.

25. Roedd un ymatebydd yn arbennig o bryderus na fyddai gan staff cymorth dysgu ysgolion aelod cofrestredig priodol ar eu Pwyllgor, gan ei fod yn teimlo bod staff cymorth dysgu yn cael eu hallgáu yn rheolaidd o benderfyniadau cynllunio allweddol mewn ysgolion, ac y gallai hyn ychwanegu at yr ymdeimlad o wahaniaethu yn eu herbyn.

26. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd proses recriwtio gynhwysfawr Cyngor y Gweithlu Addysg, ynghyd â'i asesiad o ymddygiadau a sgiliau wrth benodi aelodau Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, yn sicrhau bod aelodau panel priodol yn cael eu penodi mewn modd mwy amserol heb effeithio ar uniondeb y panel.

**Cynnig diwygiadau amrywiol**

27. Cafwyd 26 ymateb i Gwestiwn 3 - *A ydych yn cytuno â'n cynigion i wneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2015?* O'r rhain, roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, roedd 8% yn anghytuno, ac roedd 8% yn ansicr.

28. Roedd un ymatebydd yn cytuno y byddai'r diwygiadau amrywiol yn sicrhau bod Rheoliadau 2015 yn gydnaws â newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ac yn cywiro gwallau gramadegol.

**Y Gymraeg a sylwadau cyffredinol**

29. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i gael barn ar yr effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:

Cwestiwn 4 - *Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiad i'r Pwyllgorau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?*

Cwestiwn 5 - *Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r diwygiadau arfaethedig neu eu newid er mwyn sicrhau: eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; ac nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?*

Cwestiwn 6 - *Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:*

30. Cafwyd 21 o ymatebion i gwestiwn 4, cafwyd 10 o ymatebion i gwestiwn 5, a 7 ymateb i gwestiwn 6.

31. Mewn ymateb i gwestiwn 4, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai mwy o hyblygrwydd wrth benodi aelodau Pwyllgorau gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, ac roeddent yn credu y dylai ehangu'r gronfa bosibl o aelodau Pwyllgor ei gwneud yn haws cynnal unrhyw wrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

32. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai'r cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar y gallu i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei glywed yn ei ddewis iaith.

33. Ysgrifennodd un ymatebydd, er y byddai'r newid yn cyflymu'r broses ac felly yn un cadarnhaol, ei fod hefyd yn teimlo bod hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol, ond nid oedd yn egluro sut. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn teimlo fel arall.

34. Nododd un ymatebydd, oherwydd nad yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol addysgu'r Gymraeg, y gallai fod prinder siaradwyr Cymraeg o'r sector i fod yn aelodau panel.

35. Ysgrifennodd un ymatebydd, er ei fod yn deall y bwriad i gynyddu nifer yr aelodau cofrestredig posibl o bwyllgorau sy'n siarad Cymraeg, ei fod o'r farn mai addasrwydd a phrofiad perthnasol yr aelodau panel ddylai fod yn brif ffactor.

36. Ysgrifennodd un ymatebydd y bydd dileu'r gofyniad i'r person cofrestredig fod yn yr un categori cofrestru â'r sawl sy'n wynebu'r achos yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Gyngor y Gweithlu Addysg benodi aelodau cofrestredig, yn enwedig pobl sy'n siarad Cymraeg. Bydd modd mynd ati'n gyflymach i gynnull pwyllgorau sydd i'w cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd hynny yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod siaradwyr Cymraeg a benodir i bwyllgor y tu hwnt i'w categori cofrestru penodol nhw, a/neu lle nad yw'r gwaith proffesiynol yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg, yn cael yr un hyfforddiant sefydlu a pharhaus lefel uchel sy'n eu galluogi i ddeall unrhyw amwysedd cyd-destunol rhwng categorïau cofrestru.

37. Mewn ymateb i gwestiwn 5, awgrymodd un ymatebydd ddefnyddio'r cymal 'lle bo hynny'n briodol', ond ni roddodd esboniad pellach. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai modd gwneud newid i ganiatáu i ymarferwyr sydd wedi ymddeol fod yn aelodau pwyllgor, a thrwy hynny gynyddu'r gronfa o aelodau pwyllgor sydd ar gael.

38. Dywedodd un ymatebydd fod gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal yn Saesneg yn awtomatig oni bai bod y person cofrestredig yn nodi fel arall, ac nad yw hyn yn deg. Roedd yr ymatebydd yn teimlo y dylid gofyn i'r person cofrestredig nodi'r iaith a ffefrir ganddo ar ddechrau'r broses yn hytrach na ffafrio'r Saesneg yn awtomatig. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cadarnhau nad yw Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer wedi pennu un iaith benodol i'w defnyddio'n awtomatig; mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cydradd o fewn ei brosesau.

39. Ysgrifennodd un ymatebydd ei bod yn hanfodol bod dogfennaeth - a deddfwriaeth, lle bo'n briodol - yn cael ei darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mater i'r person sy'n destun yr achos yw penderfynu p'un a yw am i drafodion y Pwyllgor gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni ddylai'r newidiadau hyn gael unrhyw effaith ar ei benderfyniad i ofyn am i'r achos gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

40. Cafwyd 7 o ymatebion mewn perthynas â chwestiwn 6, a oedd yn cynnig cyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig.

41. Roedd un ymatebydd yn poeni am oedi annerbyniol pan fydd achos yn cael ei atgyfeirio ac yn cysylltu hyn ag arferion diogelu mewn awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeiriadau adran 5.

42. Holodd un ymatebydd pryd yn union, pan fydd unigolyn cofrestredig yn cytuno i eistedd ar Bwyllgor, y rhoddid gwybod beth yw categori'r unigolyn, a sut y byddai'n cael cyfle i gytuno ei fod yn hyderus i allu gweithredu fel aelod cofrestredig o'r Pwyllgor. O dan bolisïau a gweithdrefnau presennol Cyngor y Gweithlu Addysg, gellir gwahodd aelod i eistedd ar wrandawiad penodol os yw wedi cael ei benodi gan Gyngor y Gweithlu Addysg fel aelod panel. I gael ei benodi'n aelod panel, rhaid i unigolyn fodloni gofynion rheoliad 26 o Reoliadau 2015 a chydymffurfio â pholisïau Cyngor y Gweithlu Addysg ei hun yn hyn o beth. Er enghraifft, pe bai'r achos yn ymwneud ag athro ysgol, byddai'r aelodau panel yn cael eu penodi fel aelod lleyg neu aelod cofrestredig (athro ysgol). Byddent yn cael gwybod hynny adeg eu penodi. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y broses a ddilynir ar ôl cyflwyno'r Rheoliadau diwygio yr un fath, ac y bydd person yn cael gwybod beth yw ei statws ar y panel (aelod lleyg neu aelod cofrestredig) ar yr adeg pan gaiff ei wahodd i ymuno â'r panel.

43. Cododd un ymatebydd bryder ynghylch y diffyg eglurder o ran cofrestru athrawon heb gymhwyso sy'n gweithio yn y sector ysgolion, gan na chyfeirir yn benodol o hyd at y grŵp hwn o athrawon. Rydym wrthi'n ystyried y mater hwn ymhellach, ond nid yw'n berthnasol i wneud y Rheoliadau diwygio arfaethedig.

44. Cynigiodd un ymatebydd weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg i annog staff cymorth i wneud cais i fod yn aelodau pwyllgor. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r awgrym hwn gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf**

45. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Y bwriad yw i'r Rheoliadau diwygio ddod i rym ym mis Mawrth 2024.

46. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw faterion ychwanegol, cysylltiedig a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach.

**Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr**

Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, gofynnodd 11 o ymatebwyr am gael aros yn ddienw. Y rhai a restrir yma yw'r bobl a'r sefydliadau a roddodd eu caniatâd i gyhoeddi eu manylion.

ACT Training
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Colegau Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
J P Jones
Gethin Davies
Gwenan Edwards
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Coleg Iwerydd UWC
NASUWT Undeb yr Athrawon Cymru
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Cyngor y Gweithlu Addysg
Estyn
UNSAIN Cymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru